



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

CYNNAU TANAU

Cyngor ar Gyfer Rhieni a Gwarcheidwaid

Mae'r llyfryn hwn wedi'i ddylunio i roi canllawiau i rieni a gwarcheidwaid a allai fod yn pryderu am blentyn neu berson ifanc sy'n chwarae â thanau, neu'n eu cynnau.



Ymwelaid Diogel ac Iach
Ffoniwch: 0800 169 1234

CYNGOR AR GYFER RHIENI A GWARCHEIDWAID

Dylai rhieni a gwarcheidwaid sy'n pryderu am ymddygiad plant o ran cynnau tanau ddilyn y cyngor yn y llyfryn hwn.

BETH YW'R ARWYDDION?

- Cadwch lygad am dyllau bychain wedi'u llosgi mewn carpedi, yn ogystal â phapur wedi'i losgi'n rhannol mewn sinciau neu fasgedi gwastraff.
- Mae'n bosibl fod matsis a thanwyr wedi cael eu cuddio yng nghyrryddau, droriau, o dan welyau, ac ym magiau ysgol y plant, neu mae'n bosibl eu bod yn gwybod lle yn union y gallant ddod o hyd i'ch rhai chi, hyd yn oed os ydych yn meddwl eich bod wedi eu cuddio.
- Efallai y byddant yn dod adref yn arogl o fwg, ar ôl bod allan yn chwarae.
- Mae'n bosibl y bydd eich plentyn yn mynegi diddordeb mewn tanau.
- Mae gennych dân anesboniadwy yn y cartref.

CYNGOR PWYSIG

- Sicrhewch fod tanwyr a matsis, sy'n cael eu cadw yn y cartref, yn cael eu storio allan o'r golwg a thu hwnt i gyrraedd plant a phobl ifanc.
- Peidiwch fyth â gadael plant ar eu pen eu hunain yn y cartref, hyd yn oed am gyfnodau byr.
- Peidiwch fyth â thybio na all plant bach neu fabanod gynnau matsis neu danwyr – mae'n well gofalu na difaru.
- Chwiliwch am danwyr a matsis mewn dillad, ystafelloedd gwely ac mewn bagiau ysgol.
- Cadwch olwg am arwyddion o gynnau tanau, er enghraifft olion llosgi ar garpedi, gwelyau neu ar ddodrefn – yn enwedig yn ystafell wely'r plentyn.
- Esboniwch fod tanau yn beryglus, ac mai oedolion yn unig a ddylai ddelio â nhw.
- Peidiwch â chadw hylifau fflamadwy yn y tŷ, a chadwch dai allan, siediau'r ardd a garejis o dan glo, er mwyn rhwystro mynediad at hylifau fflamadwy.
- Sicrhewch fod o leiaf un larwm mwg sy'n gweithio ar bob llawr yn eich cartref. Profwch larymau mwg o leiaf unwaith yr wythnos. I gael Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref am ddim, ffoniwch 0800 169 1234 , neu anfonwch neges e-bost i hpsc@mawwfire.gov.uk.
- Lluniwch gynllun diogelwch rhag tân yn y cartref gyda'ch teulu, a rhowch ef ar waith. (Gellir dod o hyd i fanylion ynghylch lle y gellir cael gwybodaeth am ddiogelwch rhag tân yng nghefn y llyfryn hwn).

PAM Y MAE PLANT YN CYNNAU TANAU?

Mae sawl rheswm pam y mae plant a phobl ifanc yn dechrau chwarae â thâ, ac mae'r rhesymau hynny'n amrywio o chwilfrydedd naturiol i geisio am sylw, neu gallai fod yn waedd am gymorth.

Heb gymorth na chanllawiau, gallai'r arfer o gynnu tanau gynyddu gan arwain at ganlyniadau mwy difrifol, er enghraifft anafiadau personol difrifol neu ddifrod i gartrefi, ysgolion ac eiddo eraill.

Mae angen cydnabod a delio â'r ymddygiad hwn yn briodol, er mwyn lleihau'r siawns y bydd yn digwydd eto.

Os ydych yn amau bod eich plentyn yn chwarae â thâ, dylech wneud y canlynol:

- Gweithredu ar sail y cyngor a roddir yn y daflen hon; gallech leihau'r siawns y bydd eich plentyn yn cynnu tanau.
- Ystyried eich gweithredoedd eich hun a'r modd y gallent ddylanwadu ar ymddygiad y plant a'r bobl ifanc yr ydych yn gyfrifol amdanynt.
- Os ydych yn credu bod y broblem yn un ddifrifol, neu os oes arnoch angen cymorth i ddelio â'r broblem, gallwch ffonio'r Gwasanaeth Tân. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt yng nghefn y llyfryn hwn.

CYNLLUN YMYRRAETH CYNEUWYR TANAU

Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth gan bersonél y Gwasanaeth Tân, sydd wedi cael eu hyfforddi'n arbennig i weithio gyda plant a phobl ifanc sydd wedi arddangos diddordeb pryderus mewn tanau. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc o bob oed.

BETH Y GALL Y GWASANAETH TÂN EI WNEUD?

Mae'r cynllun yn cynnig gwahanol raglenni addysg a chyngor i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, neu i unrhyw asiantaeth arall a allai fod ynghlwm.

Mae'r rhaglenni'n cynnwys Ymweliad â'r Cartref. Fel arfer, mae'r rhaglen FACE wedi'i hanelu at blant ifanc iawn, ac fe'i cynhelir yn y cartref. Mae'r rhaglen SAFE yn cynnwys pedwar sesiwn, ac mae'r rhaglen FIRESAFE yn cynnwys deg sesiwn.

Fel arfer, mae pobl ifanc sydd wedi cael eu dal o ganlyniad i danau bwriadol yn dilyn y rhaglen hir. Fodd bynnag, nod y cynllun yw ceisio atal pobl ifanc rhag syrthio i'r sefyllfa honno. Mae sesiynau SAFE a FIRESAFE fel arfer yn cael eu cynnal mewn Gorsaf Dân, ac maent yn para tua awr.



Ymweliad Diogel ac Iach am Ddim

Ffoniwch: 0800 169 1234

GWYBODAETH BELLACH

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun a'r rhaglenni sydd ar gael, cysylltwch â'r:

Cydlynnydd Cyneuwr Tanau

Pencadlys Diogelwch Cymunedol

Lôn Pisgwydd

Caerfyrddin SA31 1SP

Ffôn: 0370 6060 699



Diogelwch Cymunedol
Community Safety